Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MON ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST**

---

12 Mehefin/June, 2013

At : Aelodau Cygor Sir Ynys Môn fel ymddiriedolwr
Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

Annwyl Aelod,

**CYFARFOD O'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

Gofynnir i chwi fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth Elusenol Ynys Môn ar **Dydd Mawrth, 18 Mehefin 2013 yn Siambr y Cyngor - Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni i ddilyn yn syth ar ôl cyfarfod o'r Cyngor Sir** i ystyried y materion a nodir yn y rhaglen atodol.

Yr eiddoch yn gywir,
*Richard Parry Jones*
**YSGRIFENNYDD**

---

To : Members of the Isle of Anglesey County Council as Trustee
of the Isle of Anglesey Charitable Trust

Dear Member,

**MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY CHRITABLE TRUST**

Your attendance is requested at a meeting of the Isle of Anglesey Charitable Trust on **Tuesday, 18 June, 2013 at the Council Chamber, Council Offices, Llangefni on the rising of the County Council** to consider the matters noted in the attached agenda.

Yours sincerely,
*Richard Parry Jones*
**SECRETARY**

**Ysgrifennydd/Secretary :** Mr. Richard Parry Jones BA, MA **Trysorydd/Treasurer :** Clare Williams FCCA, MA, MBA

**Swyddfa'r Sir/County Offices,
Llangefni, Ynys Môn. LL77 7TW. Tel: (01248) 750057**

# R H A G L E N

1 **ETHOL CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd am y flwyddyn i ddod.

2 **ETHOLIAD IS GADEIRYDD**

Ethol Is-Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

3 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

4 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno, i'w cadarnhau a'u llofnodi, gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ebrill, 2013.

5 **AELODAETH PWYLLGORAU'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** (Tudalennau 5 - 6)

I ystyried aelodaeth Pwyllgorau'r Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn fel a ganlyn :-

- **Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau**
- **Pwyllgor Grantiau Cyffredinol**
- **Pwyllgor Adfywio**

# Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 23 Ebrill, 2013

**YN BRESENNOL:** Mr. E Schofield (Cadeirydd)
Mr. G W Roberts OBE (Is-Gadeirydd)

Y Mri. Jim Evans, R Ll Hughes, K P Hughes, Eric Jones, O Glyn Jones, T H Jones, Raymond Jones, C McGregor, B Owen, G O Parry MBE a Eric Roberts

**IN ATTENDANCE:** Ysgrifennydd,
Trysorydd,
Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid),
Cyfrifydd Trysorlys/Cyfalaf (BD),
Cynorthwy-ydd Gweinyddol (CS),
Swyddog Pwyllgor (MEH).

**APOLOGIES:** Y Mri. E G Davies, Lewis Davies, R Dew, Mrs Fflur Hughes, T Ll Hughes, W T Hughes, R Dylan Jones, H E Jones, A M Jones, Rhian Medi, R L Owen, R G Parry OBE a S Williams

**ALSO PRESENT:** Mr. Philip Heath – Weightmans LLP – In respect of Item 3

---

## 1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

## 2 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr, 2013 yn amodol ar ychwanegu enw Mr. Alun Mummery at y rheini a oedd yn bresennol.

## 3 GWEINYDDU BUSNES YR YMDDIRIEDOLAETH

Dywedodd Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth fod yr Ymddiriedolaeth Elusennol eisoes wedi trafod gwrthdaro diddordeb posib rhwng rôl Swyddogion y Cyngor Sir a'r Ymddiriedolaeth Elusennol ynghyd â rôl yr Aelodau Etholedig fel Aelodau o'r Cyngor Sir ac Ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth. Roedd yn rhagweld y gallai prosiectau mawr ddod i'r ynys yn yr ychydig flynyddoedd nesaf gyda manteision ariannol mawr i gymunedau lleol. Teimlir bod angen trefniadau cadarn er mwyn medru paratoi i weithredu'n briodol a defnyddio'r arian mewn modd pwrpasol.

Mae'r Ymddiriedolaeth Elusennol wedi penderfynu gofyn am gyngor proffesiynol ynghylch gweinyddiaeth yr Ymddiriedolaeth i'r dyfodol ynghyd â chyngor mewn perthynas â gwerthu'r tir yn Rhosgoch. Gwahoddwyd tendrau cystadleuol ar gyfer y ddau fater a rhoddwyd y ddau gontract i Weightmans LLP.

Dywedodd yr Ysgrifennydd y byddai Mr Heath o Weightmans LLP yn annerch y cyfarfod heddiw ar weinyddiaeth yr Ymddiriedolaeth ac y bydd adroddiad ar y tir yn Rhosgoch yn cael ei gyflwyno i'r Ymddiriedolaeth gyda hyn.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i Mr Heath o Weightmans LLP.

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfreithwyr Weightmans ar ran Swyddogion yr Ymddiriedolaeth.

Dywedodd Mr Heath fod gweithgareddau dydd i ddydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol yn cael eu gweinyddu gan Gyngor Sir Ynys Môn. Fodd bynnag, gofynnwyd cwestiynau ynghylch y berthynas rhwng y Cyngor a'r Ymddiriedolaeth a gweinyddiaeth yr Ymddiriedolaeth.

Wrth i gyfraith Elusennau fynd yn fwyfwy cymhleth ac oherwydd bod rhaid cydymffurfio gyda chanllawiau'r Comisiwn Elusennau, mae'n briodol ystyried gwahanu gweinyddiaeth yr Ymddiriedolaeth Elusennol oddi wrth y Cyngor er mwyn sicrhau cefnogaeth effeithiol i'r Ymddiriedolaeth i'r dyfodol. Ers 1990 mae'r Ymddiriedolaeth Elusennol wedi cael cyngor a chefnogaeth gan y Comisiwn Elusennau ar rai achlysuron mewn perthynas â materion i'w hystyried gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol ac a oedd y tu allan i arbenigedd y Cyngor. Fodd bynnag mae'r Comisiwn Elusennau wedi adolygu ei ddull rheoleiddiol ac yn fwyfwy i'r dyfodol ni fydd yn gallu darparu cefnogaeth ac ymateb i gwestiynau fel y rheini a godwyd gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol yn yr un ffordd. Mae'n bwysig ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau ar gyfer elusennau a weinyddir gan Awdurdodau Lleol. Maent wedi cyhoeddi nifer o ddogfennau sy'n rhoi cyngor i awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am Elusennau ac mae eu haelodau yn gweithredu fel Ymddiriedolwyr. Y prif fater y mae'r Comisiwn Elusennau yn rhoi sylw iddo yw gwrthdaro diddordeb a theyrngarwch. Yr anhawster o ran yr Ymddiriedolaeth Elusennol yw oherwydd bod Swyddogion y Cyngor yn rhoi cyngor a chefnogaeth i'r Elusen ar hyn o bryd, gall gwahanu'r cyngor a'r gefnogaeth oddi wrth eu rôl yn y Cyngor arwain at honiadau o wrthdaro.

Mae pwysigrwydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol i'r Ynys a maint yr Ymddiriedolaeth yn golygu bod ganddi broffil mawr. Gan hynny, byddai gwahanu gweinyddiaeth yr Ymddiriedolaeth oddi wth y Cyngor yn sicrhau na fyddai unrhyw broblemau canfyddiad cyhoeddus yn codi o wrthdaro diddordeb awgrymedig rhwng y Cyngor a'r Ymddiriedolaeth Elusennol ynglŷn â'i gweinyddiaeth.

Byddai gwahanu gweinyddiaeth yr Ymddiriedolaeth oddi wrth y Cyngor yn sicrhau y byddai cyngor â chymorth arbenigol addas ar gael i'r Ymddiriedolaeth i'r dyfodol; nid yw'r Cyngor yn codi am weinyddu'r Ymddiriedolaeth ar hyn o bryd; byddai'r cyngor a'r gefnogaeth yn annibynnol ar y cyngor a'r gefnogaeth a ddarperir i'r Cyngor; byddai gan yr Ymddiriedolaeth fynediad i gyngor proffesiynol a thechnegol priodol heb orfod dibynnu ar gefnogaeth y Comisiwn Elusennau ac ni fyddai unrhyw wrthdaro yn codi mewn perthynas â gweithrediad yr Ymddiriedolaeth Elusennol. Nodwyd bod angen edrych ar y posibilrwydd o greu pellter rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r Cyngor trwy sicrhau ymddiriedolwyr annibynnol.

Roedd Aelodau'r Ymddiriedolaeth yn unfrydol yn eu cefnogaeth i'r egwyddor y dylid gwahanu gweinyddiaeth yr Ymddiriedolaeth Elusennol oddi wrth y Cyngor ond pwysleisiwyd y dylid diogelu asedau a chyfalaf yr Ymddiriedolaeth er budd yr Ynys a chenedlaethau'r dyfodol.

**PENDERFYNWYD**

- **Diolch i Mr. Heath o Weightmans LLP am ei adroddiad.**
- **Derbyn yr adroddiad mewn egwyddor a disgwyl am adroddiad pellach gan Weightmans LLP gyda hyn.**
- **Y dylai'r adroddiad pellach gynnwys ystyriaeth o sut y gellid diogelu cyfalaf yr Ymddiriedolaeth Elusennol er budd yr Ynys os bydd Llywodraeth Leol yn cael ei hadrefnu yn y dyfodol.**

**4 PLAC I GYDNABOD CYMORTH ARIANNOL**

Cyflwynwyd – adroddiad gan yr Ysgrifennydd mewn perthynas â'r Ymddiriedolaeth yn cyflwyno placiau i gyrff gwirfoddol sydd wedi derbyn cymorth ariannol ar gyfer prosiectau i gydnabod cyfraniad yr Ymddiriedolaeth.

Adroddwyd bod yr Ymddiriedolaeth fel arfer yn gwneud cyfraniadau ariannol o hyd at £6k ar y tro, ac o fewn y canllawiau penodol a gyhoeddwyd gan aelodau'r Ymddiriedolaeth a'r cyllid sydd ar gael yn y gronfa benodol ar gyfer dibenion o'r fath. Yn aml, mae costau'r

prosiectau yn llawer uwch na'r arian a gafwyd gan yr Ymddiriedolaeth a bydd asiantaethau eraill hefyd wedi cyfrannu at y cynlluniau. Mae'r asiantaethau hynny'n aml yn mynnu bod eu cyfraniadau'n cael eu cydnabod yn weledol (e.e. trwy ddangos plac ar wal ystafell gymunedol neu ar adeilad neu ar ddodrefn). Nid oes dim i gydnabod cyfraniad Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn, er efallai mai hi oedd y prif gyfrannwr ac, ym marn swyddogion, nid oes digon yn cael ei wneud i hyrwyddo'r Ymddiriedolaeth ac i roi cyhoeddusrwydd i'w chyfraniad ariannol i'r amryfal weithgareddau sy'n derbyn grantiau ganddi.

Awgrymwyd y gallai'r Ymddiriedolaeth gyflwyno plac syml i nodi'r cyfraniad ariannol i'r prosiect ac i'w arddangos. Awgrymwyd y dylid gwneud trefniadau i Gadeirydd yr Ymddiriedolaeth neu'r Aelod Lleol fod yn rhan o'r fath gyflwyniadau ac y dylid rhoi cyhoeddusrwydd iddynt. Amcangyfrifwyd y byddai placiau o'r fath yn costio oddeutu £35 yr un ac na fyddid yn debygol o wario mwy na £420 arnynt mewn blwyddyn ariannol.

**PENDERFYNWYD**

- **Cefnogi'r egwyddor o ddarparu placiau i gydnabod cyfraniad ariannol yr Ymddiriedolaeth i brosiectau lleol.**

- **Bod yr Ymddiriedolaeth yn neilltuo swm o £500 bob blwyddyn i ddibenion o'r fath o'i chronfa grantiau i gyrff lleol.**

- **Bod swyddogion yn gwneud trefniadau i Gadeirydd yr Ymddiriedolaeth neu'r Aelod Lleol gyflwyno placiau i gyrff perthnasol pan fyddir yn darparu grant i gefnogi prosiectau o'r fath.**

**5 CANLYNIADAU DRAFFT 2012/13 A CHYLLIDEB 2013/14**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth(Cyllid) bod angen yr adroddiad hwn i gadarnhau'r dyraniadau cyllidol ar gyfer 2013/14 ac i ddirprwyo pwerau cyllido ar gyfer cyfleusterau cymunedol a grantiau bychain i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol. Mae'r ffigyrau yn yr adroddiad yn seiliedig ar y canlyniadau a ragwelir ar gyfer 2012/13.

Mae'r canlyniadau a ragwelir ar gyfer 2012/13 yn golygu y rhagwelir gwarged o £43k yn yr arian wrth gefn ar 31 Mawrth 2013(amcangyfrif). Gyda'r twf a ragwelir o ran incwm buddsoddi a chan gymryd y bydd lefelau grant cyfredol yn parhau(gyda chyllid Oriel Ynys Môn yn gostwng i £200k erbyn 2014/15), rhagwelir y bydd arian refeniw wrth gefn yn codi i £300k yn 2014/15. Oherwydd yr ansicrwydd ar hyn o bryd o ran gweinyddiaeth yr Ymddiriedolaeth i'r dyfodol, awgrymir na ddylid, ar hyn o bryd, ddyrannu'r gwarged hwn a ragwelir.

Mae'r canlyniadau a ragwelir a'r arian refeniw wrth gefn ar gyfer 2012/13 yn wahanol i'r strategaeth a'r gyllideb fel a ganlyn:-

- Roedd yr incwm buddsoddi ar gyfer 2011/12 yn £28k(7%) yn uwch nag a ragwelwyd ym Mai 2012;
- Roedd 'grantiau eraill' £6k(12%) yn uwch nag a gyllidebwyd yn wreiddiol oherwydd cyfraniad i Môn FM gan yr Ymddiriedolaeth lawn (cyllidwyd gan ddyraniadau na chawsant eu defnyddio yn 2011/12).

- Roedd y dyraniadau na chawsant eu defnyddio yn 2011/12 yn £16k(nid yw'r rhagamcanion o ran dyraniadau sydd heb eu defnyddio yn cael eu cynnwys yn yr adroddiadau blynyddol ar gyfer pennu cyllideb).
- Roedd incwm buddsoddi ar ôl tynnu mân wariant amrywiol yn £14k yn uwch nag a ragwelwyd ar adeg adroddiad pennu cyllideb 2012/13.

Mae'r canlyniad a ragwelir yn golygu yr amcangyfrifir y bydd yr arian refeniw wrth gefn yn dangos gwarged o £43k ar 31 Mawrth 2013.

Nodwyd hefyd bod cronfeydd cronni yn y portffolio buddsoddi. Mae'r arian hwn yn talu'r difidend ar ffurf unedau buddsoddi yn hytrach nag arian ac maent yn cael eu hadlewyrchu mewn cyfalaf uwch yn hytrach nag arian refeniw wrth gefn. Fel yr adroddwyd yn y ddogfen ar gyfer pennu cyllideb 2012/13, ac fel y trafodwyd yn fyr yn y Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau ar 22 Mai 2012, gellid cyfiawnhau gweld yr arian hwn fel refeniw ac mae hyblygrwydd i'w gydnabod felly. Mae'r incwm ar hyn o bryd o gwmpas £30k.

**PENDERFYNWYD:**

- **Cadarnhau'r strategaeth ddiweddaredig a gostyngiad o £15k y flwyddyn yn y grant i Oriel Ynys Môn.**

- **Mabwysiadu cyllideb ar gyfer 2013/14 fel a ganlyn:-**

  - **Oriel Ynys Môn - £215k;**
  - **Neuaddau Pentref - £66k;**
  - **Grantiau Cyfleusterau Cymunedol a Mân Waith - £50k(mae'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol wedi dirprwyo awdurdod i wneud y dyraniadau grant hyn);**

- **Dirprwyo £50k i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol;**

- **Rhoi sylw i'r strategaeth ariannol eto ar ôl yr etholiad ac unwaith y mae'r penderfyniad ar weinyddiaeth yr Ymddiriedolaeth i'r dyfodol wedi ei wneud.**

**MR. ELWYN SCHOFIELD**
**Chair**

| YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** |
| **DYDDIAD:** | **18 MEHEFIN 2013** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **PENODI SWYDDOGION AC AELODAU PWYLLGORAU'R YMDDIRIEDOLAETH** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **YSGRIFENNYDD YR YMDDIRIEDOLAETH** |
| **GWEITHREDU:** | **Gofynnir i Aelodau'r Ymddiriedolaeth ystyried cynnwys yr adroddiad a phenderfynu ar yr argymhellion** |

## PENODI SWYDDOGION AC AELODAU I BWYLLGORAU'R YMDDIRIEDOLAETH

1. Cyngor Sir Ynys Môn yw Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn, yn gweithredu drwy ei aelodau. Pan yn gweithredu fel Ymddiriedolwr maent yn gwneud hynny yn gwbl ar wahân i'r Cyngor yn ei rinwedd fel awdurdod lleol.

   Yn dilyn Etholiadau'r Cyngor ym Mai 2013 mae angen penodi aelodau i weithredu fel swyddogion i'r Ymddiriedolaeth yn ogystal â phenderfynu ar y strwythur o bwyllgorau, a phenodi yn eu tro aelodau i'r pwyllgorau hynny. Mater i'w benderfynu ar y cyd rhwng yr holl aelodau yw'r materion hyn.

2. Yn hanesyddol mae'r Ymddiriedolwr wedi gweithredu gyda Chadeirydd ac Is-Gadeirydd ynghyd â thri o bwyllgorau sef, 1. Buddsoddiadau a Chontractau; 2. Grantiau Cyffredinol a 3. Adfywio.

   Dylid nodi mai ychydig iawn o weithgaredd sydd wedi digwydd o fewn y Pwyllgor Adfywio yn y blynyddoedd diweddar ac mai anaml iawn y bu iddo gyfarfod.

3. Mater arall sydd angen sylw yw'r cwestiwn o gydbwysedd gwleidyddol ar y pwyllgorau. Yn y gorffennol mae'r aelodau wedi ceisio osgoi cyflwyno agweddau gwleidyddol yng ngweithrediadau'r Ymddiriedolaeth a'r disgwyl oedd fod pob aelod yn gwasanaethu ar un o'r tri pwyllgor.

Awgrymir fod yr Ymddiriedolaeth yn glynu at y drefn hon, sef ymwrthod â chydbwysedd gwleidyddol, rhannu’r aelodaeth yn gyfartal rhwng y tri pwyllgor [os y cadarnheir hynny] a pharhau gyda’r patrwm aelodaeth hwn am oes y Cyngor presennol neu hyd at unrhyw newid yn y Cyfansoddiad allai ddeillio o’r adolygiad presennol y mae cyfreithwyr allanol yn ei gynnal ar ran yr Ymddiriedolaeth.

4. Yn ôl y Weithred sy’n rheoli’r Ymddiriedolaeth, aelodau sydd yn arwyddo sieciau ar gyfrif yr Ymddiriedolaeth. Mae angen tri aelod ar y mandad, gydag unrhyw ddau ohonynt yn arwyddo bob tro. Y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd ac un arall sydd yn gweithredu - yr arferiad yw mai’r Cyn-Gadeirydd yw’r trydydd llofnodydd.

5. **Argymhellion**

Argymhellir fod yr Ymddiriedolaeth yn y cyfarfod hwn yn:

5.1. Penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd o blith yr aelodau.

5.2 Rhoi awdurdod i’r Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd, ac un arall o blith yr aelodau, i arwyddo sieciau a thaliadau ar gyfrif yr Ymddiriedolaeth.

5.3 Cadarnhau sefydlu 3 pwyllgor i weithredu ar ran yr Ymddiriedolaeth llawn, sef:

Pwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau
Pwyllgor Grantiau Cyffredinol
Pwyllgor Adfywio a/neu Weithgor Aelodau a Swyddogion i ystyried dyfodol yr Ymddiriedolaeth

5.4. Hepgor yr angen am gydbwysedd gwleidyddol ac yn penodi aelodau i weithredu ar y pwyllgorau uchod gan sicrhau fod pob aelod unigol yn gwasanaethu ar un pwyllgor.

5.5. Rhoi hawl i’r pwyllgorau i benodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd o blith eu haelodau i’w galluogi i weithredu’n effeithiol.

5.6. Derbyn y bydd angen ail-ystyried yr uchod o bosibl yn dilyn yr adolygiad presennol o gyfansoddiad a dulliau gweithredu’r Ymddiriedolaeth pan adroddir ar hynny gan y cyfreithwyr allanol sydd wedi eu comisiynu i gwblhau’r gwaith.

5.7. Parhau gydag aelodaeth y pwyllgorau hyd at ddiwedd cyfnod y Cyngor Sir presennol neu unrhyw newid yn y Cyfansoddiad fydd yn deillio o’r adolygiad.

**Richard Parry Jones** **10 Mehefin 2013**
**Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth**